Pris: 50c

# Papur Pawb

Ionawr 2025 Rhif 505



**Blwyddyn Newydd Dda i chi**
Canu calennig, gw. tud 3

tud 4/5 Ysgol Tal-y-bont
tud 6 Yn Naturiol
tud 8 Gyrfa Chwist
tud 12 Antur Gyffrous

# Argyfwng Cletwr



Ganol Rhagfyr, syfrdanwyd y gymuned leol pan lansiwyd apêl codi arian i sicrhau dyfodol Cletwr. Ers ei sefydlu bron i ddeuddeng mlynedd yn ôl, mae Cletwr wedi ennill ei blwyf fel 'Calon y Gymuned' ynghyd ag amryw o wobrau cenedlaethol am ei wasanaethau. Er gwaethaf llwyddiannau'r prosiect cymunedol arloesol hwn, mae wedi dod i'r amlwg bod sefyllfa ariannol y busnes yn fregus a bod angen help ar frys er mwyn cadw Cletwr yn weithredol.

Mewn cyfnod ariannol anodd, mae Cletwr wedi cael ei daro'n arbennig o galed. "Rydyn ni wedi cael Covid, biliau trydan enfawr, chwyddiant o 20%, codiadau mawr yn yr isafswm cyflog a mwy," meddai Nigel Callaghan, un o aelodau Bwrdd Cletwr. "Mae'n golygu ein bod yn colli rhai miloedd o bunnoedd y mis oherwydd costau uwch ac incwm is o gymharu â'r cyfnod cyn Covid." Gorfod bod ar gau am ddau ddiwrnod a cholli stoc oergell oherwydd storm Darragh oedd yr hoelen olaf yn yr arch ac mae Bwrdd Cletwr wedi datgan bod y cwmni cymunedol bellach mewn argyfwng.

Er eu bod yn wynebu cyfnod eithriadol o heriol, mae'r Bwrdd yn argyhoeddedig bod modd trawsnewid y sefyllfa bresennol. Gwnaed nifer o newidiadau eisoes a chyflwynwyd cais i Fanc Datblygu Cymru am fenthyciad a fydd yn caniatáu iddyn nhw dalu dyledion a gwneud newidiadau pellach a fydd yn arwain at gynnydd mewn trosiant a phroffidioldeb dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r broses benthyca fodd bynnag, yn cymryd llawer mwy o amser na'r disgwyl - a dyna'r gofid mawr. Gallai fod yn fis Mawrth ar Cletwr cyn derbyn y benthyciad, sy'n golygu tri mis arall o golli arian a chyfyngiadau ar parhad tud 2

## Panto Nadolig Ysgol Tal-y-bont – tud 5



pp Ionawr 25.qxp_Layout 1 07/01/2025 4:46 pm Page 2


## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
**07507 652092**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Helena O Sullivan, Bont-goch
**07812 994 008**

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Casglu'r Papur:**
Gwenllian ac Arvid Parry-Jones

**Dosbarthwyr:**
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan…
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)


## Golygyddion

Golygwyd y rhifyn hwn gan Menna gyda Ceri'n dylunio. Diolch iddynt.

Phil a Megan (gwynionydd@btinternet.com) fydd yn golygu rhifyn Chwefror.

Y dyddiad cau yw 7 Chwefror a bydd y papur ar werth ar 14 Chwefror.

**parhad o dudalen 1**

# Argyfwng Cletwr

brynu stoc. Yn sgil y gofid hwn, daeth apêl uniongyrchol gan y Bwrdd: "Oni bai ein bod yn derbyn cymorth sylweddol yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, efallai na fyddwn o gwmpas ym mis Mawrth i dderbyn y benthyciad. Rhaid talu cyflogau, biliau a chyflenwyr. Beth ydym ni ei eisiau? Eich help, os gwelwch yn dda!"

Mae angen cyfalaf pontio ar fyrder ar y busnes, felly mae Cletwr wedi estyn allan i'r gymuned leol a thu hwnt trwy lansio tudalen codi arian ar blatfform cyllido torfol JustGiving. Y gobaith yw codi hyd at £30,000 er mwyn talu costau hanfodol. Dros yr wythnosau diwethaf mae'r gymuned wedi ymateb i'r alwad am gymorth a gwelwyd pob math o ymdrechion yn lleol i godi arian tuag at yr apêl. Trwy werthu potiau narsisi y tu allan i'w thŷ cyn y Nadolig llwyddodd Rachel, Green Cottage, Tal-y-bont, i gyfrannu £50 i'r dudalen JustGiving. Codwyd £300 yn nosbarth ffitrwydd "Twixmas" Laureen Pope yn Neuadd Penrhyncoch a daeth £110 arall i'r gronfa gan ddosbarth Ioga ym Machynlleth. Yn y Flwyddyn Newydd, disgwylir gweld mwy o ymdrechion tebyg. "Mae pob cyfraniad yn cael ei werthfawrogi," meddai Nigel Callaghan. "Diolch o galon i bawb sy' wedi gwneud. Mae'n codi hyder staff a gwirfoddolwyr i weld cymaint o gariad sydd 'na at Cletwr yn yr ardal a thu hwnt." Mae'r sylwadau cadarnhaol ar y dudalen JustGiving hefyd yn rhoi hwb fawr iddynt ac yn pwysleisio gwerth amhrisiadwy Cletwr. "Rydych chi'n gwneud gwaith gwych yn y gymuned," oedd sylw un cyfrannwr. "Gallwn ni ddim colli Cletwr," meddai un arall. "Mae nifer y rhoddion mewn cyfnod mor fyr yn dangos pa mor annatod yw Cletwr i'r gymuned."

Wrth i Bapur Pawb fynd i'r wasg, codwyd dros £12,000 mewn llai na mis ac mae'r cyfanswm yn dal i gynyddu. Mae'n swm anhygoel ond mae'r Bwrdd yn cydnabod nad ydyn nhw wedi cyrraedd pen y daith a bod cryn siwrnai o'u blaenau eto cyn gallu sicrhau dyfodol diogel, hirdymor i Cletwr. "Menter gymdeithasol yw Cletwr," dywed Nigel "a gallwn ni i gyd fod yn rhan o deulu Cletwr mewn nifer o ffyrdd, nid yn unig trwy roddion ariannol. Gall pobl leol ymuno â'r tîm gwirfoddoli neu drefnu digwyddiad, ond defnyddio'r siop a'r caffi yn aml fydd y peth pwysicaf yn y tymor hir. Dewch a dewch ynghyd!"

Tudalen JustGiving Cletwr:
https://www.justgiving.com/crowdfunding/cletwrcommunity

### Cyngor Cymuned Llangynfelyn

## Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol.
Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Ebost: cyngorllangynfelync-council@hotmail.co.uk
Neu, Clerc, Cyngor Cymuned Llangynfelyn, Ynystudor, Tre'r-ddol, Machynlleth, Powys SY20 8PL

**Erbyn diwedd Ionawr 2025 fan bellaf.**


**Adweitheg**
(Reflexology)

**Bethan Ifan – Aberystwyth**
**07375 422 608**



*Salon Leri*
*Pob agwedd o drin gwallt gan Richard*
*10am-7pm*
*Llun-Gwener*
*(01970) 832 674*


**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

# Dyddiadur

**IONAWR**

12 **Bethel** 10 Uno â Seion, Huw Roderick
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
14 **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 'Arferion Blwyddyn Newydd' (Hywel Roberts)
16 **Bingo** 7.30 Wildfowler
18 **Cinio Henoed Llangynfelyn** 12.30 Wildfowler
19 **Bethel** 10 Judith Morris (C)
**Rehoboth** 5 Carwyn Arthur
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
20 **Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Rheoli Llanfach** 7.30 Neuadd Llanfach
22 **Bore Coffi** 10.30–12 Neuadd Llanfach
23 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 5 Gweddi Hwyrol
24 **Cwis** 8 Wildfowler
24 **Sesiwn Nos Wener (Sara Davies)** 8 Y Llew Gwyn
26 **Bethel** 10 Geraint Evans
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
30 **Bingo** 7.30 Wildfowler
31 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** Cinio Dathlu yn y Wynnstay, Machynlleth

**CHWEFROR**

2 **Bethel** 10 Uno â Bethel Aberystwyth, Peter Thomas
**Rehoboth** 2 Rhidian Griffiths
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
7 **Cwis** 8 Wildfowler
9 **Bethel** 10 Uno â Seion, Wyn Morris
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
11 **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 'Crefftau' (Glenys Morgan)
13 **Bingo** 7.30 Wildfowler

**BOB WYTHNOS**
**Cletwr**
Dydd Mawrth 1–4
'Clonc a Gweu'

pp Ionawr 25.qxp_Layout 1 07/01/2025 4:46 pm Page 3

# Pobl a Phethe




*Cyfarch Evan Evans, Tynrhelyg*

## Canu Calennig

Ar fore digon diflas aeth Mari, Ieuan, Elsi, Magw a Nela o ddrws i ddrws i ddymuno 'Blwyddyn Newydd Dda' i rai o drigolion yr ardal. Da iawn chi, blant, am gadw'r traddodiad yn fyw.

## Arddangosfa




*Peter Lord*

Mae'r arddangosfa 'Dim Celf Gymreig' sydd i'w gweld yn y Llyfrgell Genedlaethol ar hyn o bryd, wedi ei churadu gan yr hanesydd celf adnabyddus Peter Lord, sydd bellach yn byw yn Nhal-y-bont.

Mae Dim Celf Gymreig yn cyfuno casgliad helaeth Peter gydag eitemau o'r Casgliad Celf Genedlaethol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru er mwyn archwilio'r myth bod 'dim celf Gymreig', honiad a wnaed gan Dr Llewelyn Wyn Griffith yn 1950.

Mae'r arddangosfa'n gyfle prin i fwynhau a gwerthfawrogi dros 250 o weithiau celf o arwyddocâd cenedlaethol. Gyda naratif canolog yn rhedeg trwyddi, mae'r arddangosfa yn dechrau gyda byd gweledol y bonedd, y dosbarth canol a phobl gyffredin Cymru ac yn symud ymlaen wedyn at bortreadau gwahanol o hunaniaethau Cymreig. Trwy hyn, mae'n datgelu stori am gyfoeth diwylliant gweledol Cymru yn ogystal â hanes cymdeithasol a gwleidyddol Cymru.

Ewch i'r Llyfrgell i weld yr arddangosfa. Mae'r mynediad am ddim ac mae arno tan fis Medi.






*Y Cylch Meithrin yn barod i berfformio*

## Cyngerdd Nadolig a Ffair Grefftau Cylch Meithrin Tal-y-bont

Bu plant Y Cylch Meithrin yn brysur yn paratoi ar gyfer y Nadolig. Fe fuon nhw'n ymarfer nifer o ganeuon Nadolig gan gynnwys Dyma Ni'n mynd i Fethlehem, Siôn Corn Ydw i a Ding a Ling. Ar 9 Rhagfyr cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig a Ffair Grefftau'r Cylch ac roedd y Neuadd Goffa'n llawn unwaith eto. Diolch i bawb am ddod a chefnogi! Hefyd, daeth Siôn Corn i ymweld â'r plant ac roedd anrhegion a dawnsio, cracers a llawer o hwyl!

**Croeso**
Croeso mawr i deulu o Gymry Cymraeg i Primrose Cottage, Pentrebach. Ers diwedd y llynedd mae Lea a Simon Alexander a'r plant Pererin, Tabitha ac Adain wedi ymgartrefu yno. Maent am ddarganfod enw gwreiddiol y bwthyn ac yn holi am wybodaeth.

**Pen-blwyddi Arbennig**
Pen-blwydd hapus i Ann Ovens, Tan-y-cae, a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Cyfarchion hefyd i Pete Basnett, Cae'r Gôg, Bont-goch, sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 60.

**Marwolaeth**
Ar droad y flwyddyn, daeth y newyddion trist am farwolaeth Alan Prytherch, Ffwrnais, wedi cystudd blin. Cydymdeimlwn â'i bartner Sue, a'i deulu pell ac agos.

**Yn Gwella**
Braf gweld David Morgan, Pentrebach, yn cerdded gyda chymorth baglau wedi iddo dderbyn llawdriniaeth ganol Rhagfyr. Gan bwyll Dei!

**Goleuo'r Goeden**
Cafodd goleuadau'r goeden Nadolig ar y Patsyn Glas eu goleuo brynhawn Iau, 5 Rhagfyr, ond oherwydd y tywydd ni chafwyd cyfle i ganu carolau a bwyta mins peis. Blwyddyn nesaf amdani!



*Alan Wilson yn torri ei gacen pen-blwydd*

**Dathlu'r 90!**
Criw y Cwtsh Cynnes yn dathlu pen-blwydd Alan Wilson, 7 Dôl Pistyll, Tal-y-bont, yn 90 oed.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch, ar golli ei wraig annwyl Eirlys Huws.

Cydymdeimlwn â Gwenallt Llwyd Ifan a'r teulu, Llys Alaw, Tal-y-bont, ar farwolaeth ei fam ym mis Rhagfyr. Hefyd Steve Evans a'i deulu, Elgar House, Tal-y-bont, a gollodd ei fam yn ystod yr un cyfnod.

Trist oedd clywed am farwolaeth Michael Deaville, Dôl Pistyll, Tal-y-bont, ar 7 Rhagfyr. Cydymdeimlwn â'i weddw, Val, a'r teulu.

**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach**
Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd anrheg ar gyfer Lloches Merched Aberystwyth. Fe ddosbarthwyd yr anrhegion cyn y Nadolig ac fe werthfawrogwyd eich haelioni'n fawr iawn.



*Panto Cantre'r Gwaelod*



*Panto Cantre'r Gwaelod*



*Gweithgareddau Ray Ceredigion*



*Cyngerdd offerynnol*



*Plannu coed afalau*




*Ymweliad Siôn Corn*

# Ysgol Tal-y-bont

## Ysgol y Gymuned – Panto Nadolig

Am bantomeim a gafwyd eleni eto! Roedd hi'n braf gweld y Neuadd Goffa'n llawn dop unwaith eto o rieni, ffrindiau a chyn-ddisgyblion wedi dod i gefnogi'r ysgol ac i weld y plant yn actio, yn canu ac yn perfformio. Yn wir, roedd tua 250 o bobl yn bresennol – diolch o galon i chi gyd!

Stori'n seiliedig ar Gantre'r Gwaelod a gafwyd eleni. Roedd tipyn o ofid yng Nghantre'r Gwaelod oherwydd bod angen rhywun i edrych ar ôl y wal oedd yn amddiffyn y wlad rhag y môr. Penderfynwyd rhoi'r gwaith i Seithennyn er bod Donald Trump, y brodyr Luigi a Mario a hyd yn oed Wali Tomos (!?!) wedi cael eu hystyried am y swydd bwysig. Yn anffodus, doedd Seithennyn ddim y mwyaf dibynadwy ac ar ben y cwbwl roedd wedi syrthio dros ei ben a'i glustiau gyda Mererid, merch y Brenin Gwyddno.

Ond rhyw ffordd neu'i gilydd, gyda llawer o gydweithio ac ychydig o lwc llwyddwyd i osgoi'r drychineb waethaf a daeth Sion Corn a'i anrhegion heibio cyn diwedd y sioe.

Roedd yr holl berfformiad wedi ei wau at ei gilydd yn gelfydd iawn eleni eto a hoffwn i ddiolch o galon i Miss Morris am gydlynu'r perfformiad, i'r holl staff am eu gwaith yn paratoi'r plant mor arbennig ac i'r rhieni hefyd am bob cymorth – roedd y gwisgoedd i gyd yn anhygoel! Does dim dwywaith bod y sioe yn un hynod uchelgeisiol, a phob clod i'r plant am ddysgu eu darnau mor arbennig ac am eu perfformiadau cofiadwy.

Hoffwn i ddiolch yn fawr i aelodau gweithgar y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am roi o'u hamser i baratoi ar gyfer y noson ac am weithio mor galed i sicrhau bod pawb wedi mwynhau eu hunain. Diolch hefyd i Mr David Jones am ein cynorthwyo gyda'r sain ac i Mr Ieuan Morgan a Phwyllgor y Neuadd am bob cymwynas yn arwain at noson y perfformiad.

Roedd y noson yn atgyfnerthu ymdrechion yr ysgol i fod yn gynhwysol ac i sicrhau ein bod yn rhan bwysig o'r ardal leol yn ogystal â chael cyfrannu i'r gymuned ehangach.

## Sinema

Mae ymweld â'r sinema bob amser yn uchafbwynt i'r plant yr adeg yma o'r flwyddyn. Trwy garedigrwydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon aethom i Sinema Canolfan y Celfyddydau eleni i weld "Paddington in Peru" ac fe gafodd pawb amser arbennig wrth chwerthin ar gampau'r cymeriad hoffus a doniol.

## Cinio Nadolig

Rydym yn hynod ffodus o gael ein bwydo'n dda ar hyd y flwyddyn ac er y bu newid mawr yn y gegin yn ddiweddar, mae'r bwyd yn parhau i fod o'r safon uchaf. Diolch yn fawr i Natalie am ginio Nadolig ardderchog eleni eto ac roedd hi'n braf croesawu Mrs Jones a Mrs James atom yn ystod y dydd hefyd.

Ar ôl cinio daeth Ray Ceredigion atom eleni eto i gynnal sesiwn o greu gwrthrychau gwahanol ac amrywiol gan ddefnyddio gwastraff a deunydd ailgylchu. Roedd hi'n hyfryd gweld holl blant yr ysgol yn ymuno gyda'i gilydd a defnyddio eu dychymyg i greu a chwarae mor naturiol. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r rhieni ddaeth ac i aelodau gweithgar y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am roi o'u hamser yn ystod y prynhawn i'n helpu.

## Siwmperi Nadolig

Cawsom dipyn o hwyl unwaith eto eleni wrth godi arian at elusen Achub y Plant. Roedd gweld gwahanol siwmperi'r plant a'r staff yn ddiddorol iawn ac yn codi gwên hefyd. Ond prif bwrpas y gwisgo oedd codi arian i Achub y Plant ac roedd hi'n braf gallu trosglwyddo swm go lew i goffrau'r elusen bwysig yma eleni eto.

## Parti Nadolig

Cafwyd parti hyfryd yn yr ysgol i ddweud diolch wrth y plant am eu gwaith. Diolch yn fawr i ymwelydd arbennig iawn am ddod atom i ddosbarthu'r anrhegion – gobeithio bod Siôn Corn wedi cael cyfle i ymlacio erbyn hyn!

## Gwasanaeth Nadolig

Roedd hi'n bleser gweld plant o'r ysgol yn rhan o wasanaeth carolau cymunedol Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch unwaith eto eleni. Roedd hi'n noson hyfryd yng Nghapel Bethel gyda gwahanol fudiadau'r ardal yn cyfrannu eitemau gwahanol. Diolch yn fawr i'r parti am ganu mor swynol ac i Mrs Jenkins am gyfeilio.

## Clwb ar ôl Ysgol

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch yn fawr i Miss Eirian, Miss Kate a Miss Emily am eu gwaith gyda'r Clwb dros y misoedd diwethaf. Mae'r Clwb yn hanfodol i'r ysgol ac rydym yn hynod ffodus o gael staff brwdfrydig i fod yn gyfrifol amdano.

## Ysgol Greadigol – Gwersi Offerynnol

Ar ôl y gwersi gyda'r pBuzz a'r ffidlau, roedd plant Dosbarth Allt y Crib wedi rhoi cyngerdd hyfryd i ni ar ddiwedd y tymor. Mae'n syndod cymaint y maent wedi gallu ei gyflawni mewn cyfnod mor fyr ac rydym yn mawr obeithio y bydd modd parhau gyda'r gwersi pwysig yma yn y dyfodol. Diolch o galon i chi Miss Helen am eich gwaith gyda ni ac am gyflwyno cymaint o wahanol fathau o gerddoriaeth i'r plant.

## Ysgol Eco

Mae'r Pwyllgor Eco wedi bod yn amyneddgar iawn wrth ddisgwyl am eu cyfle i gyfrannu at yr ysgol eleni. Yn dilyn ennill nawdd sylweddol gan yr ysgol, dechreuodd y criw ar eu gwaith wth blannu coed afalau ar dir yr ysgol. Diolch yn fawr i Fiona am gydlynu'r prosiect ac i Jo am y coed. Bydd mwy o wybodaeth am y grant yn fuan.

## Raffl Fawr y Nadolig

Hoffwn ddiolch o galon i bawb am y gwobrau hael ar gyfer ein raffl eleni eto ac i bawb wnaeth brynu tocyn. Diolch yn fawr i Tara am gydlynu'r cyfan a llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr!

Gwobrau'n rhoddedig gan: Cletwr, Y Lolfa, Atebol, Garej Davmor, BMO, Summit Cycles Aberystwyth, Garej Penrhyn-coch, Libanus Borth.

**Gwobrau'n rhoddedig gan:** Cletwr, Y Lolfa, Atebol, Garej Davmor, Summit Cycles Aberystwyth, Garej Penrhyn-coch, Libanus Borth, House of Goodie's, Silver Mountain Experience, Hannah Doyle, Merri May Tattoos, Vale of Rheidol, Janine Dibble, Relax with Bex, Caron Williams, Jules Cakes, Lesley Lewis, New Directions, Oriel Tir a Môr, Commodore Cinema, Rachel Mills, Tŷ Mawr Penrhyn-coch, Thread Embroidery, Cassie Williams Tattoos, Mid Wales Storage, Driftwood Designs, Sugar Cane Artisan Bakery, Newmans Garden Centre, Lois Tansey, Beauty and Beyond, Jewellery House.

**Enillwyr:** Dilwyn Evans, Nicky Byrne, Deio Dafis, Roland Davies, Freya Taylor, Eirian Evans, Ceri Herbert, Siân Stacey, Ioan Beechey, Siwan Evans, Catherine Griffiths, Demie Jenkins, Jen Drage, Glyn Saunders, Caio Lewis, Elis Wyn, Neil Foster, Mike Bull, Steve a Linda Kempsey, Bookers Aberystwyth, Martha, Thomas ac Evan, Carl Jordan, Casey Hubbard, Laura Harding, Gerry Whalley, Mark Bradley, Holly Wynne, Louise Bradley, Gwladys Evans, Isaac Foster, Siwan Morris, Jeremy Cartwright, Christine Gilbert.



*Diolch i gwmni Arbcore am noddi'r crysau T*

# Yn Naturiol

# Artist Preswyl

Fy enw i yw Hannah Doyle ac rwy'n wneuthurwr printiau yn gweithio gyda leino a thorluniau pren.

Rwy'n gyffrous i fod yn Artist Preswyl Tir Canol. Mae gen i gefndir mewn celf a chadwraeth ac rwy'n edrych ymlaen at blethu'r ddau yn y prosiect.


*Hannah Doyle*

Yn ystod y cyfnod preswyl hwn rwy'n gobeithio gwneud printiau wrth archwilio dyffryn afon Leri, gan fyfyrio ar y gwaith parhaus sydd ar y gweill i atal llifogydd yn Nhal-y-bont. Yn y cyd-destun hwn byddaf yn edrych ar ein lle ym myd natur a sut mae'n newid mewn ymateb i her newid hinsawdd a pheryglon tywydd eithafol a ddaw yn ei sgil.

Byddaf yn gweithio yn fy stiwdio yn Nhre'r Ddôl, a bydd y rhan fwyaf o fy ngwaith yn digwydd dros aeaf 2024 – 2025 gydag arddangosfa leol o fy mhrintiau wedi'i chynllunio ar gyfer 2025.

Gallwch ddilyn hynt fy ngwaith yn @hannahdoyleartist a @tircanol.


*Leino print o gornchwiglen yn aber afon Dyfi*

# Llythyr

Mis diwethaf y fi oedd yn gyfrifol am yr erthygl dan y pennawd Yn NATURiol a oedd yn sôn am Dod â lliw i'r Nadolig. Mewn gwirionedd yr unig gyfraniad wnes i oedd cyfieithu llith hir yn Saesneg i'r Gymraeg ac lawr i ryw bump cant o eiriau. Gwaith Ros Laidlaw oedd y gwreiddiol ond ar y diwedd fy enw i ymddangosodd fel yr awdur.

Hoffwn ymddiheuro i Ros am ei herthygl arobryn, gwaith ymchwil manwl iawn am draddodiadau'r Nadolig a oedd i'w weld yn Papur Pawb fel gwaith Rhys Huws.

Yn gywir
*Rhys Huws*

# Ateb Yn Naturiol i Y Gair Olaf mis Rhagfyr

Cododd Bob Williams, Penywern, sawl cwestiwn yn ei ysgrif Y GAIR OLAF fis diwethaf. Yn gyffredinol, holi wnaeth e am hynt a helynt sawl aderyn a arferai eu gweld pan oedd lawer iau ond sydd wedi diflannu o'i dir ers degawdau - adar fel y gïach, y gylfinir, y gornchwiglen a'r cyffylog. Adar sydd yn byw yn y dŵr neu ger dŵr yw'r rhain gyda choesau hirach na'r rhelyw ar gyfer eu cynefin a phig hir i chwilio am eu bwyd. Am ateb i'r cwestiynau diddorol hyn bu rhaid holi Mick Green, Pentrebach, arbenigwr yn y maes ac un sydd yn ennill ei fywoliaeth drwy archwilio pob math o adar yma yng Nghymru, Prydain ac ymhell oddi yma hefyd.

Dywed bod yr adar uchod yn diflannu o'n tir a bod y gornchwiglen a'r gylfinir ar y Rhestr Goch a olyga cwymp mawr iawn yn eu niferoedd gyda gwir berygl o ddiflannu'n llwyr. Oherwydd bod cyn lleied yn bridio yma disgwylir i'r olaf lwyr ddiflannu o Gymru erbyn 2033 gyda'r gornchwiglen i'w gweld yn bennaf mewn Gwarchodfeydd Natur. Er mwyn iddynt fridio'n llwyddiannus gwarchodir nythod y ddau fath o aderyn yn ofalus iawn fel arfer gyda ffens drydan.

Serch hynny daw 600-700 gylfinir a thua 1,000 cornchwiglen i Afon Dyfi am ein gaeaf, wedi bridio yng nghanol yr Almaen a gogledd Sweden. Nid yw'r cwymp yn nifer y gïach, a welwyd mewn corneli tamp cae, wedi gostwng mor syfrdannol ond maent serch hynny ar y Rhestr Ambr, hynny yw y rhestr lai difrifol ei sefyllfa na'r coch.

Awgrymir sawl rheswm am y gostyngiad yn y niferoedd: y newid mewn dulliau amaethu dros amser maith, draenio tir ble byddai nythod, yr arfer o dyfu cnydau gaeaf rhy dal i'r adar fridio yn y Gwanwyn ac yn olaf y newid o wair i silwair flynyddoedd yn ôl fel bod caeau yn cael eu torri yn gynharach yn y tymor cyn i'r wyau ddeor neu cyn i'r cywion allu hedfan. Ysglyfaethu yw rheswm amlwg arall. Gyda llai o adar yn bridio'n llwyddiannus mae llai o gywion yn aeddfedu i fridio y flwyddyn ganlynol.

Stori arall yw'r cyffylog sydd yn hoffi cael coedwigoedd tamp, gwlyb nid fforestydd. Dyma'r aderyn mwyaf cyffredin, ond mwyaf anweledig yn ein gaeafau er bod hanner miliwn ohonynt yn ein cyrraedd o Rwsia a gogledd Ewrop. Maent yn bwydo liw nos ac o'r herwydd yn llai amlwg. Beth bynnag, teithiant yn bell iawn cyn dychwelyd. Cafodd un ei modrwyo yn Nhrawscoed un gaeaf cyn cael ei saethu ym mis Mai y flwyddyn ganlynol yn Krasnoyarsk, Rwsia - 3,900 milltir o Geredigion!
*Mick Green*

y gylfinir – curlew y gornchwiglen – lapwing y gïach – snipe y cyffylog – woodcock

pp Ionawr 25.qxp_Layout 1 07/01/2025 4:46 pm Page 7

# Bethel



*Aelodau'r Ysgol Sul yn ymarfer*

## Nadolig Gwlad y Rwla

Unwaith eto daeth aelodau a ffrindiau Capel Bethel Tal-y-bont ynghyd ar Ragfyr 24ain mewn oedfa i ddathlu'r geni. Cafwyd eitemau cerddorol hyfryd gan grwpiau canu merched y capel a pharti plygain Papur Pawb dan arweiniad Falyri Jenkins a hefyd darlleniadau pwrpasol gan rieni a chyn aelodau'r Ysgol Sul. Yna daeth criw plant yr Ysgol Sul ymlaen i berfformio stori Nadolig Gwlad y Rwla. Sioe gerddorol wreiddiol gan Mair Tomos Ifans yw hi, gyda'r plant yn chwarae rhannau cymeriadau cyfres lyfrau Rwdlan yn ogystal â chymeriadau stori'r geni. Derbyniwyd casgliad ar ddiwedd yr oedfa fydd yn mynd i gefnogi gwaith Y Samariaid.



*Mair a Joseff*

NICEIC APPROVED CONTRACTOR

**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol

**M** 07703 169813

Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com

# Ffair y Neuadd



*Dafydd Jenkins, Cadeirydd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd Goffa yn cyflwyno'r wobr gyntaf i enillwyr y Raffl Fawr yn Ffair y Neuadd*

Diolch i ymdrechion llawer iawn o bobl a chefnogaeth y gymuned, llwyddwyd i godi dros £1400 yn Ffair y Neuadd cyn y Nadolig, swm fydd o gymorth mawr i'r Pwyllgor Rheoli wrth geisio cadw prisiau llogi i lawr yn wyneb costau cynyddol.

Unwaith eto eleni bu llawer o'r mudiadau sydd yn defnyddio'r Neuadd yn ystod y flwyddyn yn gyfrifol am stondinau amrywiol ac mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn iddynt am eu haelioni.

Yn ogystal, denwyd nifer o fasnachwyr a chrefftwyr lleol gan ychwanegu at brysurdeb ac amrywiaeth yr achlysur. Diolch iddynt hwythau hefyd am eu cefnogaeth i'r Neuadd.

Yn ogystal â'r cyfle i brynu, wrth gwrs, mae'r prynhawn yn gyfle i gymdeithasu dros baned a chacen gydag aelodau'r Pwyllgor yn gyfrifol am y lluniaeth. Cafwyd yr hwyl arferol wrth dynnu'r Raffl Fawr, gyda llwyth o wobrau yn cael eu cynnig.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth ac am hwyluso'r trefniadau gan sicrhau fod lle Ffair y Neuadd yng nghalendr cymdeithasol y pentref yn sicr am flynyddoedd i ddod.

Y dyddiad nesaf i'w gofio yw nos Fercher 12 Mawrth pan gynhelir Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Rheoli y Neuadd Goffa, cyfarfod sydd yn agored i'r cyhoedd. Yn dilyn llwyddiant dathliadau'r Canmlwyddiant denwyd dau aelod newydd i'r Pwyllgor a'n gobaith yn awr yw y bydd eraill yn fodlon chwarae eu rhan er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i'r Neuadd.

Cofiwch hefyd am Hwyl Ddewi eleni a gynhelir nos Sadwrn 1 Mawrth o 6.30 ymlaen. Darperir adloniant ar ôl y cawl gan Llond Car ac Un yn y Bŵt. Croeso cynnes i bawb.

*DPhD*



pp Ionawr 25.qxp_Layout 1 07/01/2025 4:46 pm Page 8

# CFfI Tal-y-bont



*Gwibdaith canu carolau CFfI yr ardal*

Daeth aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc (CFfI) Tal-y-bont â hwyl yr ŵyl i'r gymuned ar 10 a 17 o Ragfyr gyda'u gwibdeithiau canu carolau blynyddol. Ymwelodd yr aelodau â chymdogaethau lleol, gan ledaenu llawenydd trwy gân a charol a chysylltu â thrigolion yn ystod tymor yr ŵyl.

Diolch i haelioni'r gymuned, cododd y CFfI y swm trawiadol o £1900. Bydd yr arian yn mynd tuag at gefnogi HAHAV a Beiciau Gwaed Cymru.

Hoffai'r clwb ddiolch o galon i bawb a agorodd eu drysau, a ymunodd yn y canu ac am roi'n hael iawn i'r achosion yma.

*Ela Jones*

# Gyrfa Chwist Y Sioe



*Chwaraewyr brwd*

Cynhaliwyd yr yrfa chwist flynyddol yn y Neuadd Goffa ar nos Fercher, 18 Rhagfyr. Bu'n noson lwyddiannus unwaith eto eleni, gydag 15 o fyrddau. Hanner amser, daeth cyfle am baned a chacennau a drefnwyd gan aelodau'r pwyllgor a chyfle i brynu tocynnau'r raffl fach gan Marion Evans ac Ann James. Buddugwyr y noson oedd:

Sgôr Uchaf: Margaret Davies, Llanbrynmair
1af Dynion/Merched: Heledd Edwards, Ganllwyd/Barbara Jenkins, Hafod Ifan
2il Dynion/Merched: Glyndwr Davies, Rhoslefain/Marion Evans, Tynant
3ydd Cydradd Dynion/Merched: Gareth Pugh, Aberdyfi, Evan Davies, Llanbrynmair/Myfanwy James Bryneglur, Evan Edwards, Ganllwyd
Bwrw Allan Dynion/Merched: Richard Jones, Llanbrynmair/Janet Evans, Cefngweiriog
2il Bwrw Allan Dynion/Merched: John Daniels, Llanbrynmair/Barbara Jenkins, Hafod Ifan
1af o dan 16 oed: Llinos Edwards, Ganllwyd
2il o dan 16 oed: Osian Jones, Awel y Gors
Bwbi Dynion/Merched: Trevor Jones, Pennal/Ann James, Penbanc

Tynnwyd y Raffl Fawr cyn diwedd y noson gan y Llywydd, Mrs Janet Jones, Llwynglas. Yr enillwyr oedd: penwythnos i deulu yn un o Fythynnod Gwyliau Tynrhelyg - Eirlys Jenkins, Wileiriog Isaf, Borth; £75 - Henllys, Dolybont; £50 - Rhos y Ceiliog, Llandre; £25 - Ffosygrafel, Borth; £25 - Beti Jenkins, Pengwern; £25 - Ann K; £25 - Nia d/o Llety Ifan Hen, Bontgoch; £25 - Troedrhiwceir, Aberffrwd.

Enillwyd gwobrau'r raffl fach gan y rhai a oedd yn y neuadd ar y noson. Cyn troi am adref, diolchodd Huw Davies, Cadeirydd y Sioe, am y gefnogaeth a gafwyd ar y noson ac i Glyn Davies yr MC am gadw trefn ar y cyfan.

# Cinio Blynyddol Cymdeithas Sioe Tal-y-bont




*Cinio Blynyddol yng nghwmni'r Llywydd, Mrs Janet Jones, Llwynglas a'r wraig wadd, Mrs Sharon King*

Ar nos Wener, 6 Rhagfyr, daeth criw hwyliog ynghyd yn Yr Hafod, Pontarfynach, ar gyfer cinio blynyddol y Sioe. Ar ôl i bawb fwynhau pryd bendigedig, estynnoddd y Cadeirydd, Huw Davies, groeso i'r wraig wadd sef Mrs Sharon King, Darlithydd mewn Milfeddygaeth yn Ysgol Gwyddor Filfeddygol Prifysgol Aberystwyth. Adroddodd hanesion am ei phrofiadau fel milfeddyg yn ardal Dolgellau, Sir Benfro ac Aberystwyth cyn sôn am ei gobeithion ar gyfer yr Ysgol Gwyddor Filfeddygol a dyfodol Milfeddygaeth yng Nghymru.

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

pp Ionawr 25.qxp_Layout 1  07/01/2025  4:46 pm  Page 9

# Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Daeth yr aelodau ynghyd i festri Rehoboth, ar brynhawn Mawrth, 10 Rhagfyr, ac estynnodd Meinir Fleming groeso i bawb ac i'r gŵr gwadd, Arvid Parry Jones, Tal-y-bont. Mae Arvid yn frodor o Cross Inn, Llan-non, ac mae'r rhan fwyaf ohonom yn ei adnabod fel ffotograffydd proffesiynol, ond ar ôl gadael Ysgol Sir Tregaron bu'n gweithio mewn sawl garej am 25 mlynedd cyn mentro bod yn ffotograffydd llawn amser.


*Arvid, y gŵr gwadd*

Dechreuodd ei ddiddordeb mewn ffotograffiaeth fel hobi ac ymunodd â Chlwb Camera Aberystwyth lle cafodd ei ysbrydoli ymhellach. Cawsom brynhawn difyr yn gwrando arno yn adrodd hanes ei yrfa yn darparu lluniau i nifer o bapurau newydd, megis y Cambrian News, Y Cymro a'r Farmers Guardian ynghyd â nifer o rai eraill, dros y blynyddoedd. Wrth siarad â ffotograffwyr proffesiynol eraill yn ystod digwyddiadau arbennig dywedodd iddo fod yn lwcus fod nifer ohonynt wedi rhannu eu cyfrinachau ag ef ar sut i dynnu lluniau da, yn enwedig lluniau anifeiliaid! Tynnodd luniau o nifer o bobl enwog yn ystod ei yrfa, yn eu plith y Frenhines Elizabeth II, Arlywydd America Jimmy Carter, cymeriadau o'r operâu sebon ac o fyd gwleidyddiaeth. Diolchwyd yn gynnes iddo am rannu ei brofiadau fel ffotograffydd dawnus iawn, ac yna mwynhawyd y te a'r mins peis a baratowyd gan Meinir Fleming gyda chymorth Carys Briddon.

## Gwasanaeth Carolau


*Mwynhau'r te ar ôl y gwasanaeth*

Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau ar y cyd rhwng Eglwys Llangynfelyn a Chapel Rehoboth brynhawn Sul, 22 Rhagfyr, yng nghapel Rehoboth. Yn dilyn y gwasanaeth mwynhawyd y te hyfryd a baratowyd gan rai o aelodau'r ddwy eglwys.





*Ymweliad â sinema Libanus 1877*

# Clwb Ieuenctid Tal-y-bont

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur arall i Glwb Ieuenctid Talybont, wrth groesawu dros 90 o aelodau, hen a newydd, drwy'r drysau.

Rydym wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn sawl grant a chyfraniad ariannol i gefnogi gweithgareddau a chostau rhedeg y clwb yn 2024. Mae'r gefnogaeth hyn wedi galluogi'r aelodau i gael blas ar weithgareddau megis celf a chrefft, coginio, taith nofio adeg y Pasg, swper yn y Llew Gwyn ar ôl taith gerdded o amgylch y pentref i orffen tymor yr haf, ac ymweliad Nadolig i'r sinema cyn diwedd y flwyddyn. Yn y flwyddyn newydd, edrychwn ymlaen at barhau i gwrdd yn wythnosol i fwynhau gweithgareddau gan gynnwys chwaraeon, celf a chrefft, coginio a mwy.

Os oes gennych ddiddordeb i wirfoddoli, gwneud cyfraniad neu eisiau cefnogi'r clwb mewn unrhyw ffordd, mae croeso i chi gysylltu â Lowri ar 07730667126, neu danfonwch neges i dudalen Facebook y Clwb sef, Clwb Ieuenctid Talybont Youth Club.

*Lowri Evans*


*Sesiwn celf a chrefft*


*Mwynhau sglodion yn Y Llew Gwyn*









# Clod i Benweddig gan Estyn




Mae arolwg diweddar gan Estyn wedi camol Ysgol Gyfun Penweddig. Yn ôl yr arolygwyr rhoddir lle amlwg i ofalu am les disgyblion yn yr ysgol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dangos parch at ei gilydd ac agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu.

Cafodd disgyblion y chweched dosbarth eu canmol yn arbennig a nodwyd eu bod yn gaffaeliad i'r ysgol – roedd eu hymddygiad cadarnhaol a'u hagweddau gofalgar tuag at ddisgyblion iau yn plesio'r arolygwyr.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o'u pynciau ac yn gwneud cynnydd. Mae rhai athrawon yn gwneud hyn yn arbennig o effeithiol gan ysbrydoli disgyblion a chynllunio'n ofalus i ymateb i'w hanghenion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Addysgol Ychwanegol yn gryfder ym Mhenweddig. Mae sesiynau ymyrraeth buddiol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cymorth priodol i wella eu medrau darllen a rhif.

Mae trefniadau pontio effeithiol rhwng yr ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd yn helpu i leddfu pryder ac yn cynorthwyo disgyblion i ymgyfarwyddo â'r ysgol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymgartrefu'n dda ym Mhenweddig.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd yng nghyfnod allweddol 4, megis amaethyddiaeth ac adeiladu. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion a darparwyr eraill i gynnig cyfleoedd cwricwlaidd amgen yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, fel cyrsiau trin gwallt a gwaith gof. Mae gan yr ysgol drosolwg priodol o'r profiadau a ddarperir i fodloni gofynion Cwricwlwm i Gymru ym mhob maes dysgu a phrofiad.

Mae gweledigaeth y pennaeth o feithrin parch, Cymreictod ac ymdrech yn treiddio trwy holl waith yr ysgol a chaiff y weledigaeth hon ei chyfleu'n huawdl a chyson i gymuned yr ysgol gyfan. Mae'r uwch dîm rheoli yn gweithio'n effeithiol i hyrwyddo'r canlyniadau gorau ar gyfer pob dysgwr.

Mae prosesau tynn yr ysgol ar gyfer hyrwyddo presenoldeb yn gryfder arwyddocaol ym Mhenweddig ac mae hyn wedi'i nodi gan Estyn fel thema ar gyfer rhannu arferion da gydag ysgolion eraill ledled Cymru.

Bydd yr ysgol yn datblygu cynllun datblygu ôl arolwg i ganolbwyntio ar ddatblygu agweddau o addysgu er mwyn codi disgwyliadau a lefel yr her mewn rhai gwersi ac i sicrhau bod arweinwyr yn arfarnu gwaith yr ysgol yn ôl ei heffaith ar safonau disgyblion. Bydd yr ysgol hefyd yn cydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm fel bod disgyblion yn gwneud cynnydd parhaus.

Dywedodd y Pennaeth, Clive Williams, yr hoffai longyfarch pob aelod o 'deulu Penweddig' am eu gwaith caled a'u cydweithrediad i sicrhau'r profiadau gorau i bob disgybl.

# Cletwr



*Noson Ffilm*

Mae holl hanes helyntion cyllidol presennol Cletwr i'w weld ar dudalen flaen Papur Pawb y mis hwn. Rydym yn hyderus y gallwn eu gorchfygu, gyda chymorth a chefnogaeth ein cymuned.

Ond, yn y cyfamser, mae Cletwr wedi bod yn hynod o brysur, a bydd yn brysur yn ystod yr wythnosau o'n blaenau ni.

Diolch yn fawr i'n cwsmeriaid i gyd a gyfrannodd at wneud y Nadolig yn un llwyddiannus. Roedd y siop a'r caffi dan eu sang, cawsom Ffair Grefftau lwyddiannus a noson siopa hwyr. Mae'r cyfnod ers y Nadolig wedi bod yn fisi iawn yn y caffi. Byddwn yn ailfeddwl am gau'r gegin am wythnos pan ddaw'r Nadolig nesaf! Fe fyddwn ni'n pobi mwy o gacennau hefyd.

Cynhaliwyd ein hail Noson Ffilm ar y 30ain, pan ddangoswyd "Howl's Moving Castle" - roedd yr adeilad yn llawn dop, yn bennaf gyda phlant, a chawsant noson wych (a llawer o bopcorn). Y bwriad nawr yw cael noson ffilm bob mis drwy'r flwyddyn, gyda chymysgedd o ffilmiau, rhai addas i blant, rhai sy'n fwy addas i gynulleidfa o oedolion. Rydym yn trafod y posibiliad o gael dwy neu dair ffilm Gymraeg bob blwyddyn fel rhan o'r rhaglen. Gobeithio bydd pawb yn dod yn aml i'n cefnogi ni ac yn mwynhau noson allan yn y fflics (gyda phopcorn a bar). Nos Sadwrn y 1af o Chwefror fydd y ffilm nesaf, manylion i ddilyn.

Diolch i Ruth Jên am ei harddangosfa yn yr Oriel sydd bellach wedi dod di ben. Mae gwaith 'Lleoedd/Places' Flic Eden wedi cymryd ei lle. Mae Flic, sy' wedi byw yn Nhaliesin ers 1990, wedi teithio'n helaeth - i India a Nepal, De America, y dwyrain canol a mwy. Mae'r arddangosfa yn adlewyrchu ei chariad tuag at leoedd pell ac agos, o'r Borth a Thaliesin i Varanasi a thu hwnt. Fe fydd noson i agor yr arddangosfa am 6yh ar y 17eg o Ionawr, pan fydd cyfle i siarad â Flic a gweld ei llyfrau braslunio. Croeso cynnes i bawb.

Ac ar y 24ain o Ionawr, am 7.30, bydd y Pete Stacey Quartet yn canu eto gyda'u cymysgedd eclectig o jazz, blues a llawer mwy. Bydd yn noson fendigedig heb os. Dewch yn llu.

Mae'r siop a'r caffi ar agor saith diwrnod yr wythnos, fel arfer. Edrychwn ymlaen at eich gweld chi yno, yn aml!

*NC*



pp Ionawr 25.qxp_Layout 1 07/01/2025 4:46 pm Page 11

# Ymweliad Siôn Corn!



*Efan Aubrey yn mwynhau siocled poeth yng nghwmni Siôn Corn*

Roedd cyffro mawr yn Nhre'rddôl brynhawn Gwener, 13 Rhagfyr, wrth i blant yr ardal gael siawns i gwrdd â'r dyn ei hun - Siôn Corn - yn Cletwr. Cafwyd prynhawn hyfryd a chyfle i'r plant siarad gyda Siôn Corn (a Mrs Corn) a derbyn anrheg ganddo.

# Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch



*Gwerfyl Pierce Jones yn derbyn y casgliad er budd HAHAV*

Er gwaethaf y storm enbyd o wynt a glaw a gafwyd dros y penwythnos, erbyn 6 yr hwyr, 8 Rhagfyr, roedd yn ddigon saff i fentro allan i Wasanaeth Nadolig Cymunedol Tal-y-bont a drefnwyd gan y gangen leol o Ferched y Wawr.

Sefdlwyd y gwasanaeth arbennig yma nifer o flynyddoedd yn ôl erbyn hyn ac fe wahoddir sefydliadau a chymdeithasau lleol i fod yn rhan o'r gwasanaeth. Yn cymryd rhan eleni roedd plant o 5 oed i oedolion oedd dros 80 oed!

Cafwyd darlleniadau gan aelodau o Ferched y Wawr, eglwysi Rehoboth a Bethel, pwyllgor y Neuadd Goffa, y Cwtsh Cynnes, pwyllgor y Sioe, a Chyngor Cymuned Ceulanamaesmawr gydag Ysgol Tal-y-bont, parti Plygain Papur Pawb a'r Ffermwyr Ifanc yn cyfrannu eitemau cerddorol.

Cyflwynwyd £320, casgliad a wnaed yn ystod y noson, i Gwerfyl Pierce Jones, cadeirydd yr elusen HAHAV. I gloi'r gwasanaeth rhoddwyd y fendith gan Dr Geraint Evans.

Mawr yw'r diolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y gwasanaeth a'r noson arbennig.

# Y Gair Olaf



Cyfnod o addunedu ac edrych ymlaen at y dyfodol yw'r Calan, ond eleni teimlaf ddyhead cryfach i edrych yn ôl – nid i gyfnod fy ieuenctid, fel sy'n gyffredin wrth fynd yn hŷn, ond i adeg gynharach yn hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf.

Yr hyn sydd wedi fy nghymell yw llond bocs o ddyddiaduron teulu a ddarganfyddais wrth baratoi at werthu cartref fy rhieni. Nid yw'r clirio'n weithgaredd sy'n codi'r ysbryd, wrth deimlo hiraeth a phendroni pa eiddo cenedlaethau'r gorffennol ddylid ei gadw er diddordeb i genedlaethau'r dyfodol, ond mae darganfod trysor yn rhoi hwb i'r galon.

Rwyf yn ffodus o fod wedi adnabod fy nwy Nain - cof plentyn ifanc am y naill, ond cyfoeth llawer o atgofion oedolyn am y llall. Rwyf ond megis dechrau darllen y dyddiaduron – gan gychwyn efo un gan fam fy mam o flwyddyn ei phriodas yn 1934 ac un arall gan fam fy nhad o gyfnod y Rhyfel yn 1944.

Er y daw'r dyddiaduron o gyfnodau gwahanol ym mywydau'r ddwy – y naill yn fam ganol oed yn Nyffryn Conwy a'r llall yn ferch ifanc yn paratoi at briodi a chychwyn bywyd priodasol yn Nyffryn Hafren, mae llawer yn gyffredin yn y gweithgareddau dyddiol a gofnodir – hynt eu ffermydd trwy'r tymhorau, oedfaon ar y Sul, ymweld cyson â pherthnasau a mynychu gweithgareddau cymdeithasol.

Mi wn nad oes iddynt unrhyw werth ariannol, ond fel cyfryngau i greu dolen â dwy nain oedd yn annwyl i mi ac i agor drws cyffrous i'w bywydau ymhell cyn i mi eu hadnabod, maent heb os yn drysorau amhrisiadwy.

*Euryn Jones*






pp Ionawr 25.qxp_Layout 1 07/01/2025 4:46 pm Page 12






*Tîm Cymru gyda Jane yn y rhes flaen gyda'r ffon hoci*

# Antur Gyffrous Jane Bailey

**Mae Jane Bailey, Bont-goch, wedi cynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth hoci rhyngwladol yn Seland Newydd ddiwedd 2024. Dyma ei hadroddiad am ei thaith.**

Dwi gartref o'r diwedd wedi antur gyffrous ond blinedig i Seland Newydd. Mynychwyd twrnamaint meistri Cwpan y Byd yn Auckland gan dros gant o wledydd o bob rhan o'r byd gan anfon dros 2,000 o athletwyr mewn carfanau o'r oedran rhwng 55 a 70 oed. Roedd y gystadleuaeth yn wych a rheolwyd y cyfan yn rhagorol. Roedd yr awyrgylch yn hynod gystadleuol, ac fel y byddech chi'n ei ddisgwyl gan griw o hen 'fogies', roeddem yn benderfynol o ddychwelyd adref gyda medal. Serch hynny, roedd natur y chwaraewyr yn dda iawn bob amser gan orffen pob gêm gyda gwên, ysgwyd llaw go iawn a lluniau tîm!

Roedd clwb hoci Harborough yn darparu cyfleusterau chwarae, paratoi ac adfer rhagorol (ac ie, fe wnes i gymryd rhan mewn baddonau iâ ôl-gêm, NZ$ 10 am 6 munud o faddon iâ) . Roedd cyfleoedd hefyd i siopa am offer hoci, pasteiod cartref a hufen iâ ac wrth gwrs lluniaeth ar ôl y twrnamaint!

Chwaraeodd ein carfan ni, yn cynrychioli Cymru dros 65 oed, chwe gêm i gyd, pedair gêm pŵl yn erbyn UDA, Yr Alban, Yr Ariannin a thîm aml-wlad gan ennill tair gêm a dod yn gyfartal mewn un. Roedd hyn yn ein rhoi ar frig pŵl B i chwarae'r ail ym mhŵl A, sef Awstralia.



*Seland Newydd*

Rownd gynderfynol galed oedd hon gyda'r sgôr yn gyfartal ar y diwedd. Nesaf daeth y 'shuffles' (ychydig fel ciciau cosb) lle mae gan chwaraewr 8 eiliad i fynd â'r bêl i'r cylch a sgorio yn erbyn gôl-geidwad sy'n rhedeg allan i amddiffyn. Ni sgoriodd yr un o'r ddau dîm mewn 5 'shuffle' felly roedd angen cynnig arall gyda 'marwolaeth sydyn' y tro hwn.

Setlodd ein cyn-chwaraewr GB penigamp y gêm ac roedden ni yn y rownd derfynol yn erbyn Lloegr! Ffordd bell i fynd i chwarae eich cymdogion! Mae'n debyg mai gêm rhy bell oedd y rownd derfynol i ni ac fe wnaethon ni ildio 6 gôl yn yr hanner cyntaf, fodd bynnag, fe wnaeth sgwrs tîm hanner amser ein hanfon yn ôl allan yn benderfynol o beidio â rhoi'r gorau iddi. Dim ond un gôl arall sgoriodd y Saeson. Ni oedd y wlad leiaf i gystadlu, a chawsom berfformiadau gwych ac roeddem yn falch o'n camp - rydym yn hapus iawn i alw ein hunain yn fedalwyr Arian Cwpan y Byd! Roedd yn anrhydedd i mi dderbyn 'pennant' y chwaraewr gorau yn un o'r gemau.

Ar ôl y twrnamaint gwelwyd grwpiau bach o chwaraewyr yn crwydro o gwmpas gweddill y wlad ysblennydd hon gyda chymaint o gyfleoedd lluniau trawiadol a lletygarwch gwych. Mae'n bendant ar fy rhestr i ddod yn ôl. Felly dyna chi a diolch i chi a'r gefnogaeth a gefais gennych er mwyn gwneud yr antur hon yn bosibl.

*Jane Bailey*




Sesiwn Nos Wener
Sara Davies
Enillydd Cân i Gymru
Y Llew Gwyn
8:00 nos Wener
24 Ionawr 2025
Mynediad £10